Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlv. RHAGFYR, 1945. Rhif 12.

Ffydd Grefyddol Rydd.

Gan y Prifathro J. Islan Jones, M.A.

Dro yn ôl apwyntiwyd nifer o sgrifenwyr o dan nawdd y Gymanfa Gyffredin i draethu eu daliadau ar y testun uchod. Y mae ffrwyth eu llafur wedi ei grynhoi yn llyfr hylaw,* er mwyn goleuo'r sawl sydd yn awyddus am wybod beth yw safbwynt enwad nad yw yn mabwysiadu unrhyw gredo ddiwinyddol fel amod aelodaeth.

Ceisiaf roddi crynhodeb byr o'r prif bwyntiau. (1) Dywed y golygydd y Parch. Brif-athro R. V. Holt, M.A., nad yw crefydd yn golygu ond y nesaf peth i ddim ym mywydau miliynau o bobl heddiw ; ond i'r rhai y mae ganddynt ffydd grefyddol, y mae Duw yn golygu mwy yn awr nag erioed o'r blaen—Ef yw bywyd ein bywydau, ac enaid ein heneidiau.

Paham ynteu y mae crefydd, sydd yn golygu cymaint i ni, yn golygu cyn lleied i eraill ?

Dywed rhai mai ein dull o fyw sydd yn atebol am hyn,—y rhuthro a'r rhedeg dibaid bron, na edy seibiant i ddynion fyfyrio a meddwl. Os gofynnir i'r bobl frysiog paham nad ydynt yn ymwneud â chrefydd, atebant am mai ffug yw crefydd, ac heb un berthynas wirioneddol rhyngddi â bywyd. Golygant wrth hyn y bywyd ymarferol beunyddiol. Ac, yn ddiau, y mae'r ffaith fod cymaint o broffeswyr Cristionogaeth yn methu â byw i fyny â'u proffes hefyd yn dramgwydd i luoedd.

Y mae'r dynion sydd yn taflu crefydd o'r neilltu yn fynych yn teimlo'r gwacter mor ddwys, fel y coleddant ryw ofergoeledd i'w lanw. Y mae ymwrthod â chrefydd yn golygu tynnu o dan

**A Free Religious Faith.* A Report presented to the General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches. *The Lindsey Press.* 5s.

seiliau gwareiddiad. Pan gollir y weledigaeth, a gwrthod gwerthoedd safonol Cristionogaeth, nid oes ond adfeilion ar ôl, a bywyd heb ystyr iddo.

Y mae'n anodd deffinio beth ydyw crefydd. Meddai'r Athro Whitehead, "Crefydd yw gweledigaeth o'r rhywbeth hwnnw sydd tu draw, tu ôl, ac oddimewn i lif di-aros pethau presennol." Felly, y mae crefydd yn dal cysylltiad agos â bywyd beunyddiol dyn.

Paham y mae cymaint o ddynion yn haeru nad yw crefydd yn wir ? Ym marn y pwyllgor a nodais, y mae hyn am fod dynion yn y gorffennol wedi cynnwys, yn y gair crefydd, gymaint o ddamcaniaethau sydd erbyn hyn wedi eu profi yn gyfeiliornus—(y Cwymp, yr Iawn, Gwyrthiau a phethau o'r fath).

GWYDDOR A'R CREDOAU.

Y mae'r gred nad yw crefydd yn wir hefyd wedi codi, i raddau helaeth, o wrthdarawiad rhwng tystiolaeth gwyddor a chredoau'r eglwysi. Ni all y gwyddonwr dderbyn hanes creu'r byd, a dyn wedi hynny, fel y'i ceir ar ddechrau *Genesis*, nac yn y gwyrthiau a gofnodir yn y Beibl, nac yn atgyfodiad y corff, fel y'u darlunir yn y Beibl. Ni all y moesegwr ychwaith dderbyn llawer o bethau a briodolir i Dduw.

Y mae'r Undodwr, yn wahanol i'r Iawnffyddwr, yn derbyn tystiolaeth gwyddor, hyd yn oed pan fo honno yn gwrthdaro yn erbyn tystiolaeth yr ysgrythurau. Fe gafodd dyn ei ddonio a rheswm i'w ddefnyddio yn ddilyfethair ar bopeth sydd o bwys a diddordeb i'w fywyd.

Ni allai dyn, drwy feddwl ac ymresymu, gael unrhyw wybodaeth am y byd naturiol onibai fod meddwl o'r tu ôl i hwnnw hefyd. Heb gredu fod meddwl a threfn a deddfau sefydlog yn natur ni fedrai dyn wybod dim amdani. Er hyn, nid yw gwyddor yn profi nac yn gwrthbrofi gwirionedd crefydd. Gwaith gwyddor yw ceisio deall priodoleddau'r byd materol, a'r deddfau sydd yn ei reoli. Math o bererin yw gwyddor yn cerdded o un ffaith newydd i'r llall, ac ni ellir dweud bod dim terfynol yn perthyn iddi, eto. A siarad yn gyffredinol, nid yw gwyddor yn cyffwrdd a phob adran o brofiad dyn,—athroniaeth sydd yn gwenuthur hynny.

Anturiaeth ysbrydol yw crefydd, ac nid oes gennym amynedd at y rhai a ddywed y byddant yn derbyn ac yn byw yn unol â daliadau crefyddol, ar ôl eu profi'n wir, tuhwnt i bob amheuaeth. Y mae'r cyfryw yn gofyn am rywbeth na allant ei gael. Gallwn fod yn sicr yn ein meddwl ein hunain ar bynciau crefydd, heb honni anffaeledigrwydd ; a chadw ein meddwl yn agored i dderbyn pob goleuni ychwanegol a ddaw i'n rhan ni. Nid ar ddechrau ond ar ddiwedd yr ymchwil y mae i ni obeithio cyrraedd y wybodaeth lawnaf. Oherwydd y rhyddid yma, y mae gennym rywbeth o werth arbennig i'w gynnig i'r byd, yn yr argyfwng presennol. Nid oraclau

hollwybodol, anffaeledig ond cyd-ddysgwyr yn Ysgol fawr Duw yw arweinwyr crefyddol y byd.

Fe gododd y dybiaeth, nad yw crefydd yn wir, drwy wrthdrawiad gwyddor ddiweddar a'r hen gredoau diwinyddol. Nid oes gan yr Undodwr hen gredoau a ystyria yn ddyletswydd arno i'w hamddiffyn yn erbyn ffeithiau gwyddor. Pan fo gwyddor yn dysgu rhywbeth newydd i fodlonrwydd rheswm a phrofiad, y mae'r Undodwr yn derbyn yr addysg honno fel gwelliant ar yr hen gredoau.

Y mae darganfyddiadau Gwyddor yn ychwanegiadau gwerthfawr iawn at ein gwybodaeth. Ni fedrai meddwl dyn ddysgu dim am fyd sydd heb feddwl yn perthyn iddo. I'r gwyddonydd, y mae'r cyfanfyd yn dangos trefn, a meddwl a rheswm. Rheswm yw arweinydd diogelaf dyn ym myd y deall.

Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth lwyraf o'r byd materol, allanol, yn rhoddi i'r gwyddonydd hawl awdurdodol i reoli ar fyd y meddwl, delfrydau a moeseg ; a pheth anffodus yw bod gwybodaeth un-ochrog gwyddonwyr yn gyffredin yn eu hanalluogi i wneud cyfiawnder a phrofiad dyn yn ei gyfanrwydd. Hefyd, nid yw gwyddonwyr yn cyd-weld ar lawer o faterion pwysig.

Dywed rhai mai ceisio ei fynegi ei hun mae'r celfwr cain (*artist*), ond, mewn gwirionedd, ceisio mynegi gweledigaeth neu ddelfryd sydd fwy nag ef ei hun a wna ef. Y mae dyn yn cael delweddau o bethau mwy a rhagorach nag ef ei hun, ac yn ei oriau ysbrydoledig yn cael profiad uniongyrchol o Ysbryd Duw yn ei ysbryd ei hunan. Dynion o athrylith crefyddol yw'r proffwydi a'r cyfrinwyr ; ond fe all y profiad a gant hwy i raddau mor fawr hefyd ddod yn brofiad i ninnau, i raddau llai.

PERSONOLIAETH A DUW.

Y mae llawer o bobl yn teimlo cryn anhawster gyda golwg ar bersonoliaeth Duw. Os dywedwn fod Duw yn Berson, credant ar unwaith ein bod yn cau'r holl-bresennol o fewn terfynau, ac yn ei ddychmygu ar ddelw dyn. Yn ein hiaith gyfarwydd ni wrth ' berson ' yr ydym yn golygu bod dynol a chorff materol iddo.

Y mae'n amlwg ar unwaith na fyddai'r cyfryw syniad am Dduw yn un gweddus. Personoliaeth yw'r gwerth uchaf y gwyddom ni amdano, ac os ydym ni yn bersonau, ni all Duw fod yn llai na pherson ; efallai, o ddiffyg gair mwy cymwys, y gallwn ni briodoli ' uwch-bersonoliaeth ' i Dduw.

Wrth ymdrin â'r syniad o Dduw, y mae llawer o broblemau yn codi. Un ohonynt yw sut i edrych ar y drygau sydd yn y byd. Ni allai dyn fod yn foesol a chyfrifol heb ryddid ewyllys. Y mae rhyddid ewyllys yn golygu bod gan ddyn allu i wneuthur da neu ynte i wneuthur drwg. Ni fwriadwyd iddo gael ei yrru'n gyfangwbl gan bwerau o'r tu allan iddo ef ei hun, ond i ymladd â

rhwystrau ac â themtasiynau a thrwy hynny ennill clod neu anghlod, gwobr neu gosb. Fe all dyn wneud drwg o wirfodd i'w gyd-ddynion, drwy geisio bodloni ei flys a'i awydd ei hun, yn lle ceisio gwasanaethu a gwella cyflwr ei gyd-ddynion. Dyma'r pris mae'r ddynoliaeth yn dalu am ewyllys rydd a chyfrifoldeb moesol.

PROBLEM POEN.

Cwestiwn a gyfyd ym meddwl llawer un yw hwn,—os oes ofal ar Dduw am ddyn, paham y mae cymaint o ddioddef ymhlith plant dynion? Dyma'r broblem yr ymdrinir â hi yn *Llyfr Job*. Ymddengys natur yn fynych fel pe bai yn elyniaethus i ddyn. Yr ystormydd yn colledu a lladd, daeargrynfâu yn llyncu trefi cyfain, heintiau yn codi o dawch rhandiroedd corslyd, tywydd gwael i gynhaeafu, etc. Nid yw debygol y daw dyn byth i reoli daeargrynfâu ac ystormydd; ond yn ddios, y mae rhan helaeth iawn o ddioddefaint dyn, yn codi o'r ffaith ei fod yn troseddu deddfau'r wlad, deddfau natur, neu ddeddfau moesol; neu drwy fod rhywun arall yn gwneud hynny, ac yntau yn gorfod dioddef y canlyniadau.

Y mae'n wir fod dioddefaint yn mwyneiddio rhai pobl ac yn peri iddynt bwyllo ac ystyried; y mae'n wir hefyd fod dioddef yn suro rhai eraill a'u gwneud yn amheuwyr. Heb boen yn y byd, ni fyddai y fath air a 'phleser' yn ein geirfa; ond nid yw hanes a phrofiad yn ein cyfiawnhau i feddwl y danfonir poen i'r sawl a'i haedda neu er gwella'r dioddefwr. Dynion rhagorol, y rhan fynychaf, sydd yn dioddef fwyaf yn y byd, eto, ni fedraf i gredu mai oherwydd y dioddefaint y maent yn ddynion rhagorol, ond yn hytrach eu bod yn rhagorol ar waethaf y dioddef (yn nes ymlaen yn y llyfr rhoddir pennod gyfan i'r broblem hon).

ANFARWOLDEB.

Pwnc mawr a phwysig yw, beth a ddigwydd i ddyn wedi marw o'i gorff! Y mae'r gred mewn bywyd tu draw i farwolaeth wedi bod yn gyffredin iawn drwy'r canrifoedd—Iddewon yr Hen Destament yn credu mai rhyw rith neu gysgod yn unig oedd bywyd y meirw yn Sheol; eraill, yn ddiweddarach, yn credu yn atgyfodiad y corff; eraill eto yn credu bod yr enaid, yn angau, yn dianc o'r hen gorff ac yn cymryd meddiant o gorff dyn neu greadur arall (*Pythagoras*). Credai Paul mai cyrff ysbrydol a fyddai i ddynion yn yr atgyfodiad. Erbyn hyn, y mae lluoedd wedi colli ffydd mewn anfarwoldeb; ac nid ychydig yn ceisio am ail-feddiant ohoni, drwy ysbrydegaeth. Rhaid addef mai anfoddhaol yw'r dystiolaeth o wirionedd ysbrydegaeth a geir o'r gwahanol gyfeiriadau. Ar hyn o bryd, ffydd reddfol a rheswm yw'r sail gryfaf sydd gennym.

Y mae gwybodaeth dyn am Dduw wedi codi'n uwch, yn raddol, drwy'r canrifoedd, a'r agwedd foesol arni wedi codi i gyfateb i hynny,—o aberthu anifeiliaid, i aberthu calon lân ac ysbryd pur.

I'r Cristnogion, ni fu Duw erioed yn sylwedd amhersonol, ond i'r gwrthwyneb yn Dad cariadus. Derbyniodd Cristnogaeth lawer o'i chynnwys o'r hen grefydd Iddewig, a thipyn hefyd oddiwrth y Groegiaid.

O ddarllen y Testament Newydd yn ofalus, gwelir yn glir bod y Cristnogion borau yn disgwyl i'r hen oruchwyliaeth fynd heibio, ac i gyfnod newydd,—cyfnod teyrnas y Mesia gymryd ei lle. Y mae arlliw'r disgwyl yma yn drwm iawn ar epistolau Paul at y Thessaloniaid, yn arbennig, a hefyd ar yr Efengylau. Byddai'r Mesia, wedi ei ddyfod, yn trefnu ac yn deddfu o'r newydd.

Rhan bwysig o wasanaeth Iesu Grist oedd dysgu i ddynion syniad uwch na chynt am y natur ddynol. Eto, nid yw'r Efengylau yn dysgu bod iechydwriaeth i bawb, ond, yn hytrach, bod *llawer* wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis. Nid yw'r Efengylau yn dysgu bod yr enaid yn anfarwol, ond bod atgyfodiad o feirw i'r rhai dewisedig, a ymddangosent wedyn ar eu newydd wedd. Ni ddarfu i Grist ddychwelyd yn ôl fel y disgwylid ac oherwydd hynny fe drawsffurfiwyd yr hen gredo i un arall a lliw Groegaidd arni. Nid oes un rhan o'r hanes yn yr efengylau yn croes-ddweud y naill y llall i'r fath raddau â'r hanes am atgyfodiad Crist.

YR YMGNAWDOLIAD A'R DRINDOD.

Er bod hanes genedigaeth wyrthiol yr Iesu ar ddechrau Mathew a Luc, nid oes dim yng nghorff y ddwy Efengyl hynny i gadarnhau'r syniad.

Fe wnaeth Cristnogaeth fore lawer o broselytiaid, ond fe gyfnewidiodd y proselytiaid hynny hefyd gryn dipyn ar Gristnogaeth. Gwnaeth Paul ymdrech fawr i bontio'r agendor rhwng yr Iddew a'r Cenedl-ddyn. Wrth hynny, daeth ag elfennau ei Gristnogaeth a oedd yn ddieithr iddi.

Nid edrychai'r Cristnogion bore ar Iesu Grist fel Duw. Ni allai Iddew gredu mewn Duw a oedd ar ddelw dyn. I'r Cristnogion bore, mab Duw oedd Iesu Grist,—bod o natur uwch na dyn, ond eto, nid Duw. Ni allwn ninnau amgyffred y syniad i Dduw ymddangos ar y ddaear fel dyn. Y mae'r Ymgnawdoliad yn wir am bawb, neu ynteu y mae'n ddiystyr.

Yr ydym yn honni na all un syniad, na fu erioed ym meddwl yr Iesu, fod yn rhan anhepgorol o'r grefydd Gristnogol—pethau fel yr Ymgnawdoliad a'r Drindod. Ni cheir athrawiaeth y Drindod yn y Testament Newydd ond y mae pethau yn y Testament Newydd sydd yn paratoi'r ffordd iddi. I'r dyn cyffredin y mae'r Drindod yn golygu Tri-dduwiaeth neu o leiaf Deudduwiaeth (y Mab a'r Tad), ond i'r athronwyr iawnffyddol nid yw'r gair 'Trindod' yn golygu dim yn ychwaneg na thair agwedd ar Dduw (*proospon* yw'r gair Groeg a gyfieithir 'person' a'i ystyr fwyaf cyffredin yw

'wyneb' neu 'agwedd.' Byddai'n beth cableddus i ddweud bod i Dduw dri 'wyneb'; felly dywedir bod iddo dair 'agwedd.')

YR IAWN AC ETHOLEDIGAETH.

Oddiar amser Faustus Socinus, y mae'r Undodiaid wedi gwrthdystio yn erbyn athrawiaeth yr Iawn. Rhywbeth diweddarach yw hon na hen gredoau'r Llyfr Gweddi Cyffredin; nid yw i'w chael yn y Testament Newydd. Yn foesol ac yn ysbrydol y mae yn wrthun, ac yn ei ffurf waethaf y mae ar ddiflannu o'r tir.

Athrawiaeth arall anffodus yw Rhagarfaeth o dynged dynion. Y mae'r dynion a gred fod Duw, er mwyn ei ogoniant ei hun, wedi tynghedu rhai bodau dynol i ddamnedigaeth dragwyddol, wedi colli pob syniad gwir am feddwl a chalon Iesu Grist. Credwn ni na fodlonir mo Duw hyd oni achuber pob dyn. Ofnwn fod rhai o'r hen syniadau a enwasom yn ail ennill nerth; a rhan o afiechyd presennol y byd yw cred isel am fawredd ac urddas dyn—anghofio ei fod yn fod ysbrydol ac yn blentyn i Dduw.

GWAITH YR EGLWYS.

Y Testament Newydd yw prif ffynhonnell gwybodaeth grefyddol ac ysbrydiaeth y Cristion, ond y mae help mawr yn deilliaw hefyd o gyd-ymgynnull i addoli a myfyrio ar air Duw. Hawdd yw credu i'r eglwys fore fod yn foddion i gadw Cristnogaeth yn fyw yn nyddiau enbyd erledigaeth; ond y mae perygl i eglwys ormesu meddwl a rheswm ei deiliaid, drwy erlid a chondemnio meddylwyr annibynnol. Gresyn yw bod unrhyw Eglwys yn honni mai ganddi hi mae'r holl wir, ac nad oes le i ychwanegu ato.

Credwn nad yw bywyd dyn yn llawn, heb yr ymwybod grefyddol: yn fynych, mewn argyfwng neu gyflafan y gwel dyn ei gwerth neu ei heisiau.

Y mae profiad yn ein dysgu fod bywyd crefyddol dynion yn fwy llewyrchus pan fo rhywun o alluoedd crefyddol arbennig wedi ei benodi'n arweinydd, yn hyfforddwr, yn broffwyd ac yn gyfaill i'r frawdoliaeth; y mae doniau dynion yn gwahaniaethu o ran ansawdd a graddau. Nid yw'r weinidogaeth Undodaidd yn golygu gwybodaeth, na gallu, na chyfriniaeth oruwchnaturiol.

Trwy weddi y medr dynion ddyfnhau eu hymwybod crefyddol; ac y mae crefydd y dyn nad yw'n gweddïo yn debyg o sychu a chrino. Gall gweddi fod yn syml fel eiddo plentyn, neu'n ddwys ac yn ddwfn fel eiddo'r cyfriniwr sydd yn ei deimlo ei hun mewn undeb gwirioneddol â Duw. Y mae rhai yn amau cymhwyster gweddi ddeisyfiadol, am yr ymddengys megis yn ymyrryd ym mwriadau a threfn Duw; ond, cyhyd ag y bo'r gweddïwr yn rhydd o uchelgais hunanol a bydolrwydd, fe all arllwys ei galon a'i feddwl i'w Dad nefol heb dramgwyddo.

Y mae llawer o wahaniaeth barn ymhlith Undodiaid ynghylch y

sacramentau crefyddol. Nid yw pob cynulleidfa yn dathlu 'Swper yr Arglwydd' neu'r Cymun, ond y mae rhai cynulleidfaoedd yn dathlu gwasanaeth o goffadwriaeth ac ymgysegriad ar yr un llinellau ond heb y bara a'r gwin. Fe ddichon y sacramentau fod yn fuddiol i luoedd, o bydd y ddefod allanol yn braw gwirioneddol o ymgysegriad a gras mewnol.

Un o felltithion yr Eglwys yn y gorffennol fu culni sectyddol. Gŵyr Undodiad yn dda amdano, y mae yn fyw o hyd. Yn fynych, gwrthodir i'r Undodiaid ran ym mrawdoliaethau a mudiadau Undebol yr Eglwysi uniongred. Ni chais yr Undodwr ymyrryd ag enwadau eraill yn eu dull o addoli, ond pan haerant fod ffurfiau gwag yn rhan anhepgorol o'r grefydd Gristnogol, rhaid i'r Undodwr onest wrthdystio yn erbyn hynny.

RHYDDID BARN.

Cred yr Undodwr, nid yn unig fod ganddo ryddid i feddwl drosto'i hun, ond ymhellach ei bod yn ddyletswydd arno i wneuthur hynny. Y mae perygl i'r Undodwr feddwl bod ei waith ef wedi ei gwblhau os llwydda i droi dynion oddiwrth gredoau cyfeiliornus. Ond, dechrau'r gwaith yw hynny ; y mae crefydd yn fwy na'r credoau, a rhaid ei meithrin drwy addoliad a gweddi. Y mae'r gyfeillach eglwysig yn gyfrwng pwysig iawn i gadw'r weledigaeth nefol yn glir yn yr enaid, a'r tân dwyfol yn fyw ar allor y galon.

Rhyddid i feddwl yn onest, i addoli'n ddidwyll i wrteithio elfennau uchaf ei natur, ac i goleddu gwerthoedd rhagoraf bywyd, yw rhyddid yr Undodwr. Yn anffodus, y mae gormod o Undodiaid yn anghofio hyn.

Dyna fi wedi cyffwrdd yn fyr a'r prif bwyntiau yr ymdrinir a hwynt yn eu bennod gyntaf o'r llyfr (o ddiffyg amser bu raid i mi adael rhai eraill heb gyffwrdd a hwynt), a theg yw dweud nad yw'r bennod honno onid braslun o'r pynciau yr ymdrinir yn fwy manwl â hwynt yn y penodau dilynol. Gwaith diddorol fyddai ymdrin â phob un o'r penodau eraill ar ei phen ei hun.

Rhaid addef bod ambell ddarn o'r llyfr yn ddwfn ac yn anodd i'w ddeall i'r dyn cyffredin, ac ambell syniad, efallai, y gellid ei fynegi yn well ; ond y mae yn llyfr gwerthfawr, yn ymdrech deg i oleuo pynciau dyrys crefydd, ac yr ydym o dan ddyled drom i'r rhai fu'n llafurio wrtho. Gobeithiwn y caiff y derbyniad, a'r darlleniad gofalus a haedda.

Beth a Fydd y Bachgennyn Hwn?

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Oni pherthyn rhyw swyn rhyfeddol i'r plentyn? Yn union y'i genir, ymglym llinynnau tyneraf calon ei rieni amdano? Yn fuan, dechreuir ffurfio cynlluniau parthed ei ddyfodol; a gofynnant gwestiynau a awgrymir iddynt gan y bywyd newydd, diymadferth, y sydd wedi dod i mewn i'w byd. Dyna fel y bu erioed. Dyry'r Beibl aml enghraifft o'r diddordeb hwn, megis, Hannah a Samuel yn yr Hen Destament, Joseff a Mair a Iesu yn y newydd. Nid rhieni yn unig, ychwaith, a deimla ddiddordeb yn y baban. Pwy ohonom sydd na ddarfu iddo brofi rhyw fesur o londer ysbryd, oblegid clywed ohono eni baban? Gan bob newydd o eni, oni'n cludir yn ôl, ar adain côf, i adeg ein plentyndod. Braidd na ddeffroir ynom bang o hiraeth oblegid cael ohonom ein gwthio dros ei derfynau i fyd llawn o bob math ar brofiadau. Tymor y posibiliadau cudd yw tymor y plentyn. Hawdd y medraf gydymdeimlo â Martin Luther yn ei foesgrymu i bob plentyn y digwyddai gwrdd ag ef ar yr heol.

O feddwl dipyn yn fanylach, gwelwn y diddordeb a enynnir ynom gan y plentyn o gyfeiriad arall. Un o'r bendithion gwerthfawrocaf a gafodir arnom yw dynion mawr, ysbrydoledig. O ddarllen ohonom eu hanes, gwelwn fel yr hoffa'r awduron ymdroi o gylch a manylu ar ddigwyddiadau adeg eu plentyndod. Mewn un ystyr, nid y plentyn sydd bwysig, eithr y dyn a dŷf o'r plentyn. O ddewis ohonom unrhyw ddyn enwog fel enghraifft, megis Channing, gwelwn mai a wnaed ganddo yn nhmyor ei ganol oed ac wedi hynny a ennillodd iddo enwogrwydd. Eithr yn y cofnodi o'i hanes, dechreuir gyda thymor ei ieuenctid—troir yn ôl y llen a guddia'r adeg hon er i'r darllenydd gael cipdrem ar y dylanwadau a fu'n ei addasu ar gyfer llanw'i gylch mewn adeg ddiweddarach. A mynych iawn y gwëir o gylch ei ddechrau ystraeon rhyfeddol na ellir rhoddi un coel iddynt, eithr ystraeon a apelia'n nerthol at ryw elfen gudd yn natur y darllenydd ohonynt.

Gwir yw a ddywedwyd mewn modd neilltuol am oleuadau disgalir y byd crefyddol, yn enwedig am sylfaenwyr y crefyddau mawr—Bwda, Confiwsiws, Mahomet. Ni ŵyr neb fawr iawn am hanes bore'r ddau gyntaf, nid llawer y gellir dibynnu ac ei gywirdeb am y trydydd. Eithr cysylltir â thymor ieuenctid pobun ohonynt ystraeon hollol anghredadwy. Ac eto, pwy ohonom sydd na swynir mohono ganddynt; ac ni hoffem ar un cyfrif iddynt fynd i golli.

Y mae'r unpeth yn wir am Iesu—ychydig iawn a wyddom am ei flynyddoedd bore. Yr hanesyn cyntaf y gellir gosod dim dibyniaeth

arno yw ei ymweliad â'r Brif Ddinas pan oedd yn ddeuddeg oed. O'r adeg honno yn ôl, megis deilen wen, yw'r cwbl. Eithr y mae mewn bod gryn lenyddiaeth a broffesa roddi ei hanes yn y blynyddoedd hyn. Hanesion o ddigwyddiadau gwyrthiol ydynt i gyd. Ac ys dywed Matthew Arnold, "ni ddigwydd gwyrthiau."

Dyry'r ddwy bennod gyntaf o *Fathew* a *Luc* inni ryw syniad parthed natur yr ystraeon hyn. Dywedir, yn y llyfrau y cyfeiriwyd atynt, i Iesu gael ei eni mewn ogof dywyll, ac i'r ogof gael ei goleuo megis gan olau haul llachar ar fynd o Mair i mewn iddi. Adeg ei eni, dywedir i bopeth, trwy'r holl gread, aros a distewi, fel pe wedi'u meddiannu gan ryw hûd anghyffredin. Dywedir i ŷch ac asyn a borai gerllaw syrthio ar eu gliniau ac addoli'r baban newyddanedig. O'r preseb y gorweddai ynddo, dywedodd Iesu, "Mair, myfi yw Iesu, mab Duw." Braidd y rhaid dywedyd mai ystraeon hollol anghredadwy ydynt, ac eto, er mai disail ydynt, ni chredaf yr hoffai neb iddynt fynd i golli. Tyst ydynt o'r swyn a'r diddordeb a enynnwyd gynt yn y baban Iesu. Ac nid yw na'r swyn na'r diddordeb wedi diflannu.

Beth, ynteu, a gyfrif am y swyn a'r diddordeb a berthyn, nid i'r baban Iesu yn unig, eithr i bob baban a phob plentyn? Tybiaf y perir inni ofyn, "Beth a fydd y bachgennyn hwn?" neu, "Beth a fydd yr enethig hon?" gan y ffaith mai'r "plentyn yw Tad y dyn," neu "fam y fenyw." Dau ymadrodd a swnia dipyn yn hynod yw'r ddau hyn; a'u hystyr yw—bod ansawdd bywyd y dyn neu'r fenyw yn dibynnu i fesur mawr ar eu dygiad i fyny.

"Hysbys y dengys y dyn,
O ba radd y bo'i wreiddyn."

Hefyd, "Hyfforddia blentyn ym mhen ei ffordd; a phan heneiddio, nid ymedy â hi."

Cofion am Banteg.

CEISIAF grynhoi rhai atgofion am hen gapel Panteg, y gweinidog a rhai o flaenoriaid yr achos, yn y cyfnod 1892 hyd 1902, blynyddoedd fy ieuenctid. Diangen dweud fod drws y capel yn agored y pryd hynny *bob* Sul, ac arferai cynulleidfa sylweddol ddod ynghyd i wrando ar y Parchedig Jenkin Williams. Yr oedd ei bregeth bob amser yn drefnus a defnyddiol. Un peth sydd wedi aros gennyf i wresogi fy nghalon drwy'r blynyddoedd yw'r teimlad brwd a brawdol hwnnw a ffynnai ymhlith aelodau'r gynulleidfa. Mor wahanol i frawdoliaeth Panteg yw'r ysbryd sy'n rheoli ein byd

heddiw ! Y mae cofio'r hen frawdoliaeth yn deffro profiadau melys a chysegredig.

Yn ddiamau bu'r gyfeillach honno yn ysbrydiaeth i lawer un o blant yr hen Gapel yng nghanol ystormydd bywyd mewn blynydd-oedd diweddarach. Amdanaf fy hun ni phetrusaf ddweud i brofiad bore oes ac esiampl ragorol blaenoriaid Panteg fod yn dŵr o gadernid ar lawer tro. Yn fy ngwendid troisant yn gyfryngau cyfarwyddyd a nerth i mi. Torsau goleuedig yn arllwys eu llewych ar fy llwybrau.

Cofiaf yn ddiolchgar am y gweinidog, y Parchedig Jenkin Williams. Cofiaf amdano fel dyn hawdd ei garu ac ar bob adeg yn un parod ei gyngor i ni, y bechgyn ieuanc. Fel pregethwr yr oedd wedi mynd heibio ei amser gorau—yr oedd y pryd hynny yn ardal ei bedwar ugain. Saif allan yn fy nghof fel dyn duwiol a naws byd arall ar ei feddyliau a'i ymgom. Un tro ar y ffordd adref o'r cwrdd cofiaf amdano'n troi ataf ac yn dweud ei fod yntau, fel yr Apostol Paul, yn hiraethu am "yr ymddatodiad a bod gyda'r Arglwydd."

Wrth gwrs, byddai gweinidogion eraill yn dod ar eu tro i Banteg. Deuent i'r "Cyrddau Mawr," ac yn un o'r rhain cofiaf am y Parchedig John Davies, Galltyplaca yn pregethu pregeth fythgofiadwy. Un o'r emynau yn y gwasanaeth hwnnw oedd :

"Yn dy waith y mae fy mywyd,
Yn dy waith y mae fy hedd . . ."

Cenid y geiriau ar y dôn "Hyfrydol," a chlywaf eto mewn atgo eco o'r canu brwdfrydig hwnnw dan arweiniad Samuel Hughes, Llwynbedw. I mi y mae'r atgofion hyn yn ysbrydiaeth barhaus.

Soniwyd eisoes am yr ysbryd brawdol a gwresog a oedd ymhlith yr aelodau, ac anodd enwi un ohonynt yn fwy na'r llall. Er hynny, fe'm temtir—ac enwaf bedwar a adawodd argraff ddofn ar eu hôl ar fywyd y cylch, Samuel Hughes, Llwynbedw ; John Bowen, Llwyn-einon ; David Hughes, Penrheol ; a Benjamin Hughes, Bancyfelin. Erys eu coffadwriaeth yn felys ac yn "berarogl bywyd i fywyd."

Oddiar y dyddiau hynny gorfu i ysgrifennydd yr ychydig linellau hyn gerdded a byw ymhell o gyrraedd yr hen Gapel. Gwir nad yw'r oedfaon yno mor aml ag yr oeddynt gynt, ond ni ellir dirnad y pleser o feddwl fod y drws o hyd yn gil-agored. Fy ngweddi a'm gobaith yw—cadwer y drws yn agored eto led y pen.

Birmingham. S.D.

Priodasau.

Hydref 24, yng Nghapel Galltyplaca, JOHN COWLAND, Upton St., Leonards, Gloucester, a Nyrs MEGAN DAVIES, merch Mr. a Mrs. Daniel Davies, Tivy Hill, Llanybyther, y Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu.

Tachwedd 17, yng Nghapel Galltyplaca, JOHN LLOYD RICHARDS, Caehir, Cribyn, a RACHEL ANN JONES, Dyffryn, Drefach, Llanwenog, y Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu.

Marwgofion.

Medi 29, bu farw yr Athro E. J. WILLIAMS, F.R.S., Brynawel, Cwmsychbant, yn 42 mlwydd oed, Athro Anianeg yng Ngholeg Aberystwyth er 1938. Ystyrrid ef ymhlith y blaenaf o wyddonwyr ei amser, a galwyd arno i roi o'i alluoedd i'r Morlys a'r Llu Awyr yn ystod y rhyfel. Yr oedd yn aelod yn eglwys yr Annibynwyr ym Mrynteg, a gwelwyd ef yn fynych, ar ei dro i'r henfro, yng nghwmni ei dad a'i fam yn y gwasanaeth nos Sul yng Nghapel y Cwm. Mynegodd ei barch tuag at y lle yn ogystal a thuag at Frynteg drwy adael yn ei ewyllys gan punt yr un iddynt. Daearwyd ei weddillion ym mynwent Capel y Cwm y dydd Mercher dilynol. Yn ychwanegol i'r lliaws a'i hadnabu yn ei ardal fel ffrind mynwesol, yr oedd yn yr angladd gynrychiolaeth gref o'r Prifysgolion a chynrychiolwyr y Morlys a'r Llu Awyr, yn eu plith Dr. Thomas Jones, C.H.; Prifathro I. L. Evans, Aberystwyth; a'r Athro P. M. S. Blackett, F.R.S., Manceinion. Llywyddodd y Parchedig S. E. Bowen yn y gwasanaeth yn y Capel, a mynegodd ei weinidog, y Parchedig Bryn Davies, yn deimladwy amdano fel bachgen naturiol, gwylaidd, diymhongar a seiliodd ei holl fywyd ar egwyddorion crefyddol. Talodd y Prifathro I. L. Evans hefyd deyrnged o barch uchel iawn iddo. Cydymdeimlir yn fawr iawn â'i dad a'i fam a'i ddau frawd yn eu profedigaeth lem.

Yn gynnar fore Sul, Tachwedd 11, yn Ysbyty Aberystwyth, MARY EVANS, annwyl briod David Evans, Felin Rhydowen, Llandysul, yn 61 mlwydd oed. Hyd o fewn rhyw ddeufis i'r diwedd yr oedd, hyd y gwyddys, yn fenyw iach ac yn cyflawni gorchwylion y cartref fel arfer. Yna canfuwyd fod drwg rywle yn y corff, ac awd â hi i'r Ysbyty yn Aberystwyth i gael triniaeth law-feddygol. Canfuwyd yno fod y drwg wedi mynd yn rhy bell, a bod y diwedd yn agos. Yr oedd yn fawr ei pharch gan bawb a'i hadwaenai, ac nid syndod hynny gan ei bod o anian siriol, garedig, a chymwynasgar. Pan ddoi cymdogion ar eu tro i'r felin i grasu neu falu, rhaid oedd galw yn y tŷ, a threuliodd llawer ohonynt amser diddan yn ei chwmni croesawgar. Hoffai lond aelwyd o gwmni, a byddai'r siarad bob amser yn lân a diwenwyn. Magodd bump o blant, a bu'n fam ragorol iawn. Ers blynyddoedd cyfyngwyd ei phriod i'w gornel gan y gymalwst. Bu hi'n rhyfeddol o ffyddlon iddo hyd y terfyn. Credwn mai'r ddwy nodwedd amlycaf yn ei bywyd oedd sirioldeb a charedigrwydd. Heblaw ei phriod a'i phlant gadawodd i wylo ei cholli wyrion, plant yng nghyfraith, brawd, tair chwaer, a llu mawr o berthynasau pellach a chyfeillion. Cafodd angladd parchus iawn y dydd Mercher dilynol pryd yr hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Pantydefaid. Yn absenoldeb y gweinidog a oedd oddicartref ar neges pwysig gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Daniel Adams, B.A., B.D. (Llechryd), T. R. Evans (Llandysul), a D. A. Williams (Carmel). "Cawn gwrddyd yn y Nef."—E. O. J.

Tachwedd 16, MAIR HOPKIN, unig blentyn Mr. a Mrs. I. Emrys Hopkin, 203, Swansea Road, Trebanos, yn 19 mlwydd oed. Ychydig ddyddiau y bu'n gystuddiol, a bu farw yn Ysbyty Abertawe. I'r dyrfa fawr, yn enwedig i'r dyrfa o bobl ieuainc yr ardal, a ddaeth i Gapel Gellionnen ar ddydd ei hangladd, y dydd Mawrth dilynol, yr oedd ing anhraethadwy yn y profiad ein bod yno'n hebrwng Mair a oedd bob amser mor llon o asbri bywyd a nwyfiant i gynnar fedd. Torrwyd hi i lawr ar fin dechrau ei gweithgarwch: syrthiodd fel deilen iraidd yn nechrau haf—rhywbeth annaturiol, allan o'i le, annisgwyl. Amlyced ei chymeriad a'i chalon agored ei hun, ac yr oedd yn annwyl yng ngolwg ei chydnabod, y rhai hynach yn ogystal â'r plant a arferai alw yn y Post Office iraidd yn nechrau haf—rhywbeth annaturiol, allan o'i le, annisgwyl. Amlyced ei chymer ad a'i chalon agored ei hun, ac yr oedd yn annwyl yng ngolwg ei chydnabod, yr rhai hynach yn ogystal â'r plant a arferai alw yn y Post Office

a'r siop. Cawsom ei hadnabod yn blentyn, a gwelsom y pryd hynny fod rhinweddau prydferth iawn wedi eu plethu yn ei chymeriad. Anwylid hi fel plentyn ar fwy nag un aelwyd, ac yr oedd drysau ei pherthynasau a'i chymdogion mor agored iddi â drws ei chartref ei hun. Gwelsom ei chymeriad yn datblygu, a hithau'n tyfu'n ferch ieuanc hardd. Bu'n rhannu a ni ei gobeithion a'i threfniadau ar gyfer y dyfodol. Yn y grŵp o ferched ieuainc y bu hi'n ysgrifennydd iddo, yn yr ysgol Sul, yn yr ysgol gân, ac yn enwedig yn yr oedfa yng Nghapel Gellionnen, a garai hi mor fawr, gwelir y bwlch yn amlwg. Fe'i dysgwyd yn gynnar gan esiampl rhieni a pherthynasau i gerdded y llwybr i'r cysegr, ac yr oedd naws awyrgylch y cysegr yn gorffwys yn drwm ar ei bywyd hithau. Gyda'i thad a'i mam, ac yr oedd Mair yn caru ei rhieni tu hwnt i'r cyffredin, gyda hwy a'r perthynasau y mae'r cydymdeimlad dyfnaf. Llif ein cydymdeimlad allan hefyd at y bachgen ieuanc y rhoddodd Mair iddo serch ei chalon, yr un y bu'n cynllunio dedwyddwch ei dyfodol yn ei gwmni. I'w ffordd yntau, yn awr yn yr Almaen, y daeth siomedigaeth flin. Cawsom ni'r fraint o'i hadnabod yn blentyn, ac yn ei hanian gwelsom y peth hwnnw y dywedodd Iesu wrthym am ei efelychu. Yn ei bywyd byr gwelsom brydferthwch sancteiddrwydd yn datblygu. Mewn galar diolchwn am y nodweddion hyn. Yn y goffadwriaeth y mae'r rhin a all droi chwerwder y profiad presennol yn felyster a thangnefedd.

Tachwedd 22, bu farw JANE JENKINS, Tynrhos, Cwrtnewydd, yn 56 mlwydd oed. Er na bu mewn iechyd da ers rhai blynyddoedd daeth y diwedd bron yn ddirybudd. Bu fyw fywyd hyfryd iawn i'w theulu, a pherchid hi yn fawr gan ei chymdogion. Yr oedd yn fenyw ddoeth, dawel, ac yn foneddigaidd wrth natur. Y dydd Iau dilynol gosodwyd ei gweddillion ym mynwent Capel y Bryn, a'r Parchedigion S. E. Bowen a A. J. Martin yn gwasanaethu. Gadawodd briod, tri mab a thair merch ac wyrion mewn galar o'i cholli.

Nodion yr Eglwysi.

CAPEL Y CWM.—Dengys y fantolen fod y gynulleidfa wedi treulio'r swm o £134/16/6 ar adgyweirio Tŷ'r Capel. Yr Henadur Meredith Williams a Mr. D. J. Thomas a fu wrthi'n casglu'r arian, a chafwyd y cyfan yr oedd ei eisiau ac ychydig dros ben. Rhoddodd yr olaf hefyd wasanaeth gwerthfawr pen a llaw, a diolchwyd yn arbennig iddo am hynny. Derbyniwyd rhodd o *Berlau Moliant* yn yr Hen Nodiant, ac yn y rhwymiad gorau, oddiwrth Mrs. Meredith Williams, Woodlands, Galltyplaca. Y Parchedig D. Jacob Dafis a fu'n gwasanaethu yn y cwrdd Diolchgarwch eleni, ac yng Nghapel y Bryn a Galltyplaca hefyd. Cafwyd cynulliadau da a phregethau grymus.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington N., ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 o'r gloch. Mwynhad oedd clywed y Parch. E. D. Davies, Mexborough, yn pregethu yn hwylus iawn mewn Cymraeg glân yn ein gwasanaeth ym mis Tachwedd. Rhoddodd i ni ddarlun o Dduw fel mam gyda'i phlentyn. Pleser oedd hefyd cael gair oddiwrth y Parch. J. A. Pearson. Mae ein cynulliadau yn parhau i rifo dros ddeg ar hugain. Nid ydym wedi llwyddo unwaith eto i gyrraedd yr hanner cant. Gobeithio y gwnawn cyn bo hir. Bwriadwn gynnal Sosial yn gynnar ym mis Chwefror. Trefn y dyfodol: Ionor—Y Parch. T. L. Jones; Chwefror—Y Parch. S. E. Bowen; Mawrth—Y Parch. E. O. Jenkins.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.